


Fframwaith Arfer Proffesiynol, Yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd

Nodiadau canllaw ar gyfer dysgwyr sy'n gwneud cais (gan ddefnyddio ffurflen PL3b) i Fwrdd Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau ac Achredu PCYDDS am **Gredyd Penodol**.



Llun o John Dewey (Ffynhonnell: vita-learn.org/wp-content/uploads/2020/06/john-dewey-quote-2.jpg)

Sarah Loxdale a Lowri Harris

s.loxdale@uwtsd.ac.uk

l.m.harris@uwtsd.ac.uk

8/10/2024

Fersiwn 2.0_Penodol

Mynegai

NODIADAU CANLLAW AR GYFER CEISIADAU SY’N YMWNEUD Â CHREDYD PENODOL	3
Cam 1:.....	4
Cam 2:.....	7
Cam 3:.....	11
Cam 4:.....	12
Cam 5:.....	12
Rhestr Wirio.....	13
Atodiad 1 – Enghraifft o Ffurflen PL3b – adran	
3.....	Error! Bookmark not defined.

NODIADAU CANLLAW AR GYFER CEISIADAU SY’N YMWNEUD Â CHREDYD PENODOL

Camau ar gyfer Cwestiwn 3 ar ffurflen PL3b	Canllawiau pellach / enghreifftiau
---	------------------------------------

Cam 1: Dyma ble byddwch yn rhoi paragraff byr yn cyflwyno'r cais am ddysgu drwy brofiadau a sut y gwnaethoch gaffael y dysgu. Cyflwyniad ffurfiol (Rwy'n gwneud cais i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i hawlio X credyd penodol ar Lefel X am y dysgu drwy brofiadau y gwnes i ei gaffael wrth ymgymryd â'm rôl fel XXX) y gellir ei fapio yn erbyn y modwl/modylau canlynol - Cod y Modwl – Teitl y Modwl – Gwerth Credyd a Deilliannau Dysgu	<u>Enghraifft</u> Rwy'n gwneud cais i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i hawlio 60 credyd ar Lefel 7 am y dysgu drwy brofiadau y gwnes i ei gaffael wrth ymgymryd â'm rôl fel Uwch Athro. Cod y Modwl - XXXX Teitl y Modwl – Addysgeg ac Ymarfer Gwerth Credyd – 20 credyd Deilliannau Dysgu • Dangos yn feirniadol ddealltwriaeth o bwysigrwydd cefnogi a gwella cyflawniad pob dysgwr yn eu gofal. • Gwerthuso effeithiolrwydd ystod o strategaethau dysgu ac addysgu yn feirniadol trwy dynnu ar dystiolaeth yn yr ystafell ddosbarth a thystiolaeth ymchwil. • Dewis a chymhwyso'r strategaethau dysgu ac addysgu mwyaf priodol yn feirniadol er mwyn gwella cyrhaeddiad grŵp o ddysgwyr. • Ymgysylltu â deialogau beirniadol am addysgeg ac ymarfer a thystiolaeth a rhannu eu harfer proffesiynol.
---	--

	Cod y Modwl - XXXX Teitl y Modwl - Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth Gwerth Credyd – 20 credyd Deilliannau Dysgu • Dadansoddi a syntheseiddio tystiolaeth empeiraidd berthnasol yn feirniadol, gan gynnwys llenyddiaeth addysg a dogfennau polisi; • Dadansoddi a syntheseiddio data profiad lleol, cenedlaethol ac ysgol yn feirniadol er mwyn cael mewnwelediadau i gyflawniad, cynnydd a chymhelliant plant yn y broses ddysgu, er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. • Dangos gwybodaeth o'r cwricwlwm, addysgeg, asesu ac ymarfer cynhwysol sy'n briodol i'w Meysydd Dysgu a Phrofiad penodol. • Myfyrio'n feirniadol ar y modd y gellir strwythuro'r amgylchedd dysgu a'r adnoddau i gefnogi dysgu effeithiol. • Dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu er mwyn datblygu fel ymarferydd myfyriol. Cod y Modwl - XXXX Teitl y Modwl – Ymarfer Cydweithredol a Phroffesiynol Gwerth Credyd – 20 credyd Deilliannau Dysgu • Dadansoddi a myfyrio'n feirniadol ar ysgolion fel sefydliadau dysgu. • Gwerthuso diwylliant dysgu yn feirniadol sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus i gefnogi'r cwricwlwm. Cymhwyso modelau damcaniaethol sy'n ymwneud â chasglu a dadansoddi data'n feirniadol mewn perthynas â gwella ysgolion. Myfyrio'n feirniadol ar nodweddion ymarfer cydweithredol a phroffesiynol. • Gwerthuso'n feirniadol ddulliau ar gyfer codi safonau a gwella addysgeg a fydd yn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu ar draws sefydliad.
I gael adnoddau ychwanegol i'ch cynorthwyo wrth gwblhau cais PL3b, ewch i dudalen Moodle 'PL3b Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau' Cwrs: PL3b Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau (pcydds.ac.uk)	Enghraifft naratif i'w chynnwys: Rwyf wedi datblygu'n sylweddol yn bersonol ac yn broffesiynol wrth ymgymryd â'm rôl fel Uwch Athro ac yn ystod y X blynedd diwethaf rwyf wedi gallu gwella fy sgiliau addysgu wrth gyflwyno yn yr ystafell ddosbarth a'm sgiliau paratoi.



Wrth baratoi'r cais hwn am gredyd rwyf wedi dadansoddi fy arfer fel athro yn feirniadol ac wedi adfyfyrio ar y dysgu rwyf wedi'i gaffael ac ystyried yr effaith mae wedi'i chael ar fy arfer a'r addysgu rwy'n ei gyflwyno yn fy ysgol.

Ynghyd â'm CV a Disgrifiad Swydd anodedig, mae'r portffolio o dystiolaeth yn triongli'r cais am ddysgu perthnasol trwy brofiadau sy'n cyd-fynd â'r deilliannau dysgu a nodir uchod.

Mae paratoi'r cais hwn am ddysgu drwy brofiadau wedi bod yn broses ddysgu hynod werthfawr ynddo'i hun, gan ei bod wedi caniatáu i mi adfyfyrio'n ddwfn ar nodi'r gwahaniaeth mae dysgu wedi'i wneud i mi a'm harfer, a deall fy nghynnydd yn llawn.

Cam 2:

Dadansoddwch yn feirniadol ac adfyfyrwch ar y dysgu sydd wedi'i gaffael ar gyfer pob modwl a'r deilliannau dysgu cysylltiedig. Dylai hwn fod yn ddadansoddiad eithaf helaeth o'r wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd rydych yn gwneud cais am gredyd amdanynt.

Mae'n bosibl y byddwch eisiau archwilio goblygiadau ehangach ac archwilio sut y gellir defnyddio'r dysgu hwn mewn lleoliadau eraill, e.e. gellir defnyddio rheoli gwrthdaro yn y gwaith, gartref a hefyd mewn unrhyw sefydliadau gwirfoddol rydych yn gweithio gyda nhw.

Rhestrwch unrhyw hyfforddiant neu gyrsiau datblygiad proffesiynol perthnasol a fynychwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Cymerwch y cyfle i nodi amrywiaeth o ddamcaniaethau academiaidd priodol sy'n cefnogi eich darn o waith a thynnu ar ystod o dystiolaeth y gellir ei hychwanegu fel atodiad i'ch cais.

Dylech ddarparu crynodeb o'r portffolio o dystiolaeth sy'n dangos lefel y dysgu yn erbyn y deilliannau dysgu a'r modylau perthnasol o fewn y rhaglen astudio

Wrth ystyried y cyfnod sy'n cael ei ddadansoddi, ystyriwch fel rheol gyffredinol y gallwch ddadansoddi 5 mlynedd diwethaf eich gyrfa yn feirniadol. Fodd bynnag, ar gyfer ceisiadau pwnc-benodol mae'n bosibl y gellir ymestyn y cyfnod hwn. Bydd eich tiwtor PL3b yn gallu eich cynghori fel y bo'n briodol.

Mae'n bwysig bod pob cais PL3b yn dangos cymhwysedd y dysgwr i ysgrifennu'n adfyfyrion a'i allu i ddadansoddi arfer seiliedig ar waith yn feirniadol, gan arwain at nodi dysgu drwy brofiadau.

Bydd y fideo hwn yn rhoi cyflwyniad i chi i ysgrifennu adfyfyrion - [Reflective Writing - YouTube](#)

Levels of Reflection:

STAR RATING

- *Critical reflection with recommendations and practical and literary evidence* ★★★★★
- *Catalogue reflection with some practical evidence/examples* ★★★★★
- *Descriptive with some reflection/evaluation* ★★★★★
- *Descriptive* ★★★★★

designed by freepik.com

 Prifysgol Cymru
Y Ddrindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau
Transforming Education; Transforming Lives

Mae defnyddio model adfyfyrion i strwythuro'r elfen hon o'r cais PL3b yn cael ei nodi'n gyson fel arfer gorau. Mae hyn yn sicrhau eich bod yn osgoi cyflwyno eich naratif yn ddisgrifiadol.

Mae enghreifftiau'n cynnwys -

Cofiwch osgoi ysgrifennu'n ddisgrifiadol. Gall defnyddio model adfyfyriol helpu i strwythuro'r ymateb i bob deilliant dysgu. Lle bo'n briodol, nodwch y cyfnod amser ar gyfer eich dysgu, e.e. Dechreuais y prosiect ym mis Ionawr 2019, a daeth i ben ym mis Mai 2019. Yn ystod y cyfnod hwnnw roeddwn yn canolbwyntio 60% o'm hamser ar ddatblygu fy sgiliau rheoli prosiect.

Cylch Dysgu Kolb (1984)



Model Adfyfyrio Gibbs (1988)



Dyma ychydig o arweiniad pellach ar fodel Gibbs. Mae'r cwestiynau o'r PDF wedi'u copïo isod er hwylustod:

<https://www.ed.ac.uk/reflection/reflectors-toolkit/reflecting-on-experience/gibbs-reflective-cycle>

- Gosodwch y cefndir ac eglurwch gyd-destun eich dysgu
 - Meddyliwch am ddigwyddiad penodol / digwyddiad tyngedfennol / sefyllfa lle roeddech yn teimlo eich bod wedi dysgu llawer o'r profiad.
 - Yma mae angen i chi ddarparu digon o wybodaeth er mwyn i'r darlennydd ddeall y cyd-destun.
 - Beth ddigwyddodd?
 - Pryd a ble ddigwyddodd hyn?
 - Pwy oedd yn bresennol?
 - Beth wnaethoch chi a'r bobl eraill?
 - Beth oedd canlyniad y sefyllfa?
 - Pam oeddech chi yno?
 - Beth oeddech chi eisiau i ddigwydd?

	• Sut oeddech chi'n teimlo am y profiad hwn? ○ A oeddech chi'n datblygu gwybodaeth bresennol? A oedd hyn yn rhywbeth newydd oedd yn golygu gwaith dysgu helaeth? ○ Beth oeddech chi'n ei deimlo yn ystod y sefyllfa? ○ Beth oeddech chi'n ei deimlo cyn ac ar ôl y sefyllfa? ○ Beth ydych chi'n meddwl oedd pobl eraill yn ei deimlo am y sefyllfa? ○ Beth ydych chi'n meddwl mae pobl eraill yn ei deimlo am y sefyllfa nawr? ○ Beth oeddech chi'n ei feddwl yn ystod y sefyllfa? ○ Beth ydych chi'n meddwl am y sefyllfa nawr? • A oedd hyn yn brofiad cadarnhaol neu negyddol? ○ Beth oedd yn dda ac yn ddrwg am y profiad? ○ Beth aeth yn dda? ○ Beth aeth ddim cystal? ○ Beth wnaethoch chi a phobl eraill ei gyfrannu at y sefyllfa (cadarnhaol neu negyddol)? • Beth ydych chi wedi'i ddysgu o'r profiad hwn? ○ Beth ddysgais i o'r sefyllfa hon? ○ Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol pe baech yn yr un sefyllfa neu mewn sefyllfa debyg yn y dyfodol? ○ Beth aeth yn dda a beth fyddech chi'n ei wneud yn yr un modd yn yr un sefyllfa neu mewn sefyllfa debyg eto? ○ Pam aeth pethau'n dda? ○ Pam na wnaeth pethau fynd yn dda? ○ Pa synnwyr gallaf ei wneud o'r sefyllfa? • Sut mae'r profiad hwn yn gysylltiedig â damcaniaethau neu fodelau academiaidd perthnasol? ○ Pa wybodaeth – fy ngwybodaeth fy hun neu gan bobl eraill (er enghraifft llenyddiaeth academiaidd) all fy helpu i ddeall y sefyllfa? • Sut ydych chi wedi datblygu eich arfer, ar ôl mynd trwy'r profiad hwn? ○ Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i ddelio â sefyllfa fel hon yn well? ○ Beth arall gallwn i fod wedi'i wneud? • Beth yw eich profiad chi o'ch arfer gweithio newydd?
--	--

Sut mae strwythuro'r adran hon? (Gweler hefyd yr enghraifft yn Atodiad 1)

Defnyddiwch deitl y Modwl fel pennawd a defnyddio pob un o'r Deilliannau Dysgu fel isbenawdau. Gan ysgrifennu yn erbyn pob un o'r deilliannau dysgu, cofiwch -

- Ddangos sut a phryd y gwnaethoch chi gyflawni'r Deilliannau Dysgu
- Byddwch yn adfyfyriol – ystyriwch y gwahaniaeth mae'r dysgu wedi'i wneud i chi a'ch arfer; wrth gymhwyso'r dysgu ystyriwch beth sydd wedi gweithio'n dda. Beth fydddech yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
- Byddwch yn benodol – peidiwch â thybio bod y darlennydd yn deall.
- Cysylltwch â'r dystiolaeth rydych wedi'i chynnwys yn eich atodiadau
- Ymgorfforwch sylfaen academiaidd (gan ddefnyddio Dull Cyfeirnod Harvard)

Cam 3:

O fewn Adran 3.1 y cais, rhestrwch a chyfeirnodwch y dystiolaeth ategol yn eich portffolio. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys:

- CV manwl anodedig;
- disgrifiad swydd anodedig;
- portffolio o brofiadau dysgu sy'n dangos lefel y dysgu yn erbyn y deilliannau dysgu a'r modylau perthnasol o fewn y rhaglen astudio;
- Ffurflen PL3b wedi'i chwblhau yn amlinellu manylion y cais ac yn cynnwys datganiad cefnogi gan y Mentor Academaidd.
- llythyr cefnogi gan eich cyflogwr ar bapur swyddogol, wedi'i lofnodi a'i ddyddio. (Os byddwch yn ei anfon drwy e-bost rhaid defnyddio enw parth swyddogol sefydliad yr awdur). Gweler Cam 4.

Canllaw

Disgwylir y byddwch yn cynnwys y canlynol

- CV anodedig
- Disgrifiad Swydd anodedig

Gall y dystiolaeth gynnwys amrywiaeth o eitemau fel: -

- Ardystiadau
- Geirdaon
- Dogfennaeth arfarnu
- Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi
- Adroddiad Busnes
- Strategaeth farchnata
- Adroddiadau blynyddol
- Rhagolygon/cynlluniau ariannol
- Astudiaethau achos
- Erthyglau/Cylchgronau
- Recordiadau
- Logiau hyfforddi
- Arsylwadau

Wrth gyfeirio at dystiolaeth yn adran 3 eich ffurflen PL3b, cofiwch ddefnyddio system godio fel y gall y darllenydd gysylltu'r naratif yn hawdd â'r dystiolaeth.

Enghraifft

'Gan adfyfrio ar fy Curriculum Vitae (Atodiad 1) a'r Disgrifiad Swydd anodedig (Atodiad 2) gallaf nodi'r datblygiad rwyf wedi'i wneud yn y maes hwn'.

Cam 4: Cynhwyswch dystiolaeth tyst gan gyflogwr neu rywun arall priodol sy'n cydnabod yn benodol y dysgu sy'n destun eich cais.	<u>Canllaw</u> Mae'n hanfodol eich bod yn cael dystiolaeth tyst i gefnogi eich cais PL3b. Mae angen i'r geirda gael ei gyflwyno ar bapur swyddogol neu dylid cynnwys copi gwreiddiol o'r e-bost. <u>Canllawiau ar gyfer datganiadau geirda:</u> • Cadarnhewch rôl y swydd ac amrywiaeth y cyfrifoldebau. • Rhowch sylwadau llawn ar ddatblygiad y dysgwr yn ystod y cyfnod. • Adfyfyrwch ar wybodaeth a roddwyd gan y dysgwr yn adran 3.1 y cais. • Cadarnhewch fod y dystiolaeth a nodwyd yn dod o'r gweithle. • Cynhwyswch y datganiad canlynol: ○ Cadarnhaf fod y dysgwr hwn wedi cyrraedd lefel briodol o arfer proffesiynol. • Rhaid i ddatganiadau geirda gael eu llofnodi a'u dyddio. Os yw'r geirda'n cael ei anfon drwy e-bost, rhaid ei anfon yn uniongyrchol at y tiwtor PL3b.
Cam 5:	Mae'n bosibl y bydd eich tiwtor modwl eisiau cynnal trafodaeth broffesiynol fel rhan o broses PL3b a bydd yn cynghori yn ôl yr angen. Os oes gofyn i chi ymgymryd â thrafodaeth broffesiynol, ystyriwch y pwyntiau hyn - • Byddwch yn benodol wrth nodi dysgu perthnasol drwy brofiadau sy'n cysylltu â deilliannau dysgu'r modwl yr ydych yn ceisio credyd amdano. • Byddwch yn adfyfyriol yn eich ymatebion, ceisiwch beidio â rhestru eich dysgu. Ystyriwch yr effaith mae dysgu drwy brofiadau wedi'i gael arnoch. Sut ydych chi wedi cymhwyso'r dysgu? A fydddech chi'n gwneud unrhyw beth yn wahanol yn y dyfodol?

<i>Rhestr Wirio</i>	Ydych chi • Wedi bod yn benodol wrth nodi'r dysgu drwy brofiadau rydych wedi'i gaffael? • Wedi cynnwys tystiolaeth i driongli eich cais? • Wedi cyfeirio at amrywiaeth o fodelau a theorïau academiaidd ac wedi mabwysiadu canllaw Cyfeirnod Harvard? • Wedi cynnwys rhestr gyfeiriadau? Wedi rhestru eitemau yn nhrefn yr wyddor? • Wedi cynnwys datganiad o gefnogaeth/geirda gan eich cyflogwr? • Wedi cynnwys eich CV a'ch Disgrifiad Swydd. • Wedi defnyddio byrfoddau? Os felly, cofiwch eu nodi'n llawn y tro cyntaf y gwnewch chi hynny yn y cais.
----------------------------	---

FFURFLEN GAIS CYDNABOD DYSGU BLAENOROL DRWY BROFIADAU (RPEL)

1. MANYLION YR YMGEISYDD	
Enw:	
Rhif y myfyriwr (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad:	
Rhif ffôn:	
Cyfeiriad e-bost:	
Rhaglen astudio y gwnaed cais amdani NEU y cofrestrwyd arni (os yw'n fyfyrwr cyfredol):	MA Addysg (Cymru)
Lefel mynediad i astudiaeth (os nad yw'n fyfyrwr cyfredol):	
Teitl y Dyfarniad (e.e. BA, Diploma):	MA
Athrofa/Disgyblaeth Academaidd/Canolfan:	Yr Athrofa, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Campws:	Abertawe
Manylion cyflogwr (ar gyfer Prentisiaid yn unig):	Ddim yn berthnasol

2. MENTOR ACADEMAIDD / CYNGHORYDD RAL	
Enw: Sarah Loxdale / Lowri Harris	Athrofa: Athrofa Rheolaeth ac Iechyd (IMH) ar ran yr Athrofa
Swydd: MENTOR ACADEMAIDD / CYNGHORYDD RAL (dileer fel y bo'n briodol):	

**3. MANYLION Y DYSGU DRWY BROFIADAU Y GWNEIR CAIS AM GREDYD
AMDANO (mae'r blwch testun isod yn ehangu)**

Cyfanswm a lefel y credydau dysgu drwy brofiadau y gwneir cais amdanynt (e.e. 120 o gredydau ar Lefel 4 a 60 credyd ar Lefel 5):	60 credyd ar Lefel 7	Cyflwynwyd portffolio o dystiolaeth (ticiwch):	
Manylion cod(au) modwl a theitl(au) (os yw'n berthnasol):	ECEW7013C: Addysgeg ac Ymarfer - 20 credyd ECEW7007C: Ymarfer sy'n seiliedig ar Dystiolaeth - 20 credyd ECEW7003C: Ymarfer Cydweithredol a Phroffesiynol - 20 credyd	Cwblhawyd y Modwl RAL yn llwyddiannus (os yw'n berthnasol) (ticiwch):	
Cyfanswm y ffi sy'n daladwy (£5 am bob credyd a ddyfernir) (os yw'n berthnasol):		Cadarnhewch bod y taliad wedi'i wneud (os yw'n berthnasol) (ticiwch):	

Gan barhau â'm rôl gyfredol fel uwch athro gwyddoniaeth mewn ysgol, rwy'n gwneud cais i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i hawlio 60 credyd ar Lefel 7, am y dysgu drwy brofiadau y gwnes i ei gaffael wrth ymgymryd â nifer o rolau addysgu dros y 5 mlynedd diwethaf. Byddaf yn cyfeirio at bob deiliant dysgu sydd wedi'i gynnwys yn y 3 modwl ac yn darparu digon o dystiolaeth i gefnogi fy nghais. Byddaf hefyd yn cynnwys Model Adfyfrio Gibbs (1988) i gysylltu pob deiliant dysgu'n glir â'm profiadau. Yn atodol ceir amrywiol fathau o dystiolaeth i gefnogi fy natganiadau'n gryf.

Cod y Modwl - **ECEW7013C**

Teitl y Modwl – **Addysgeg ac Ymarfer**

Gwerth Credyd – **20**

DD1 - Dangos yn feirniadol ddealltwriaeth o bwysigrwydd cefnogi a gwella cyflawniad pob dysgwr yn eu gofal.

Disgrifiad: Mae addysgu dosbarthiadau gallu cymysg trwy wahaniaethu a sgaffaldio priodol yn sicr yn arddangosiad effeithiol o'm dealltwriaeth o bwysigrwydd cefnogi a gwella cyflawniad pob dysgwr yn fy ngofal. Roedd fy ngwaith cynllunio ar gyfer dosbarthiadau Blwyddyn 5, gan eu bod yn grwpiau gallu cymysg, yn fanwl iawn i ddarparu cerrig camu priodol a fyddai'n eu harwain i gyrraedd eu nodau. Yn ffodus, gyda chynllunio gofalus, llwyddodd pob disgybl i gyflawni nod dysgu'r wers. Mae **Atodiad 1** yn enghraifft o adnodd a greais. Fe sylwch fod yr un dasg yn cynnwys nifer o lwybrau i gyflawni llwyddiant. Mae'r llwybrau hyn yn cael eu dewis gan yr unigolion, yn seiliedig ar eu hanghenion.

Teimladau: Yn ystod y broses gynllunio, roedd yn rhaid i mi gymhwyso fy nealltwriaeth o amrywiol strategaethau a damcaniaethu i weld dros fy hun yr effaith maent yn ei chael ar ddatblygiad disgyblion. Roeddwn yn awyddus i ddilyn gwaith Lev Vygotsky (1986) a ddywedodd fod sgaffaldio'n elfen hanfodol mewn cynnydd disgyblion os ydynt yn dymuno symud ymlaen i gam nesaf y Parth Datblygiad Procsimol. Ar ôl gweithredu awgrymiadau Vygotsky, roeddwn i'n teimlo'n hyderus y byddai disgyblion, ar ôl y wers, yn gallu cymhwyso'r sgiliau a addysgwyd i feysydd pwnc eraill heb yr angen am sgaffaldau cyson. Yn ogystal, mae damcaniaeth Vygotsky yn sylfaen i chwe egwyddor Allison ar gyfer dysgu ac addysgu llwyddiannus, lle mae'n honni y dylai modelu a sgaffaldio fod yn un o'r strategaethau cyntaf i'w gweithredu mewn dosbarth er mwyn datblygu plentyn yn llwyddiannus (Allison a Tharby, 2015).

Gwerthusiad: Rhoddodd y profiad hwn fewnwelediad gwych i mi ynghylch sut i ddatblygu fy nghynllunio ymhellach. Mae Bruner (1966) yn cefnogi gwaith Vygotsky, gan bwysleisio fod sgaffaldio'n hyrwyddo ymgysylltiad disgyblion. O'm profiad i, roedd unigolion o allu is yn dangos llawer mwy o ddiddordeb yn y gwaith gan eu bod yn gallu symud ymlaen ar gyflymdra'r dosbarth, gyda chymorth y sgaffaldau.

Dadansoddiad: Gellir ymgorffori sgaffaldio yn y rhan fwyaf o bynciau, fodd bynnag mae'n bwysig deall anghenion pob unigolyn yn y dosbarth er mwyn iddo fod yn llwyddiannus. Mae Taffel (2010) yn mynnu bod angen gwahaniaethu a sgaffaldio mwy gofalus ar gyfer disgyblion cyn y glasod. Trwy asesu fy nisgyblion yn ffurfiannol cyn sgaffaldio llwyddais i gynllunio cymorth ychwanegol priodol ar gyfer fy nysgwyr.

Casgliad: Mae sgaffaldio'n angenrheidiol er mwyn sicrhau cynnydd parhaus gan ddisgyblion mewn amgylchedd apelgar. Mae adnoddau effeithiol sydd wedi'u llunio ar gyfer unigolion yn hytrach na'r dosbarth cyfan yn hanfodol yn natblygiad unigolyn, gan eu bod yn derbyn cymorth sydd wedi'i deilwra'n broffesiynol i'w hanghenion. Rwy'n rhoi cyfle i'm myfyrwyr wneud cynnydd mewn amrywiaeth o bynciau a fyddai'n cael eu hystyried fel arfer yn heriol. O ganlyniad mae'r disgyblion yn dangos diddordeb ac yn fwy agored i adborth gan yr athro.

Cynllun gweithredu: Wrth symud ymlaen, byddaf yn cymhwyso'r arfer o sgaffaldio i bob grŵp blwyddyn ar draws CA3. Byddaf yn defnyddio cymysgedd o asesiadau ffurfiannol a chrynodol i ennill gwybodaeth am unigolyn a'i anghenion dysgu unigryw, er mwyn ei baratoi orau am y pwnc sydd i ddod. Byddaf hefyd yn archwilio asesu arloesol ar gyfer strategaethau dysgu a fydd yn caniatáu i ddisgyblion barhau i adeiladu ar y cynnydd maent yn ei wneud yn ystod y gwersi.

Y gwahaniaeth mae'r dysgu hwn wedi'i wneud i'm harfer: Roedd caniatáu i'r disgyblion ddewis eu sgaffald eu hunain yn llwyddiant mawr a chredaf fod gan blant yr hawl i benderfynu pa lwybr dysgu maen nhw'n dymuno ei ddilyn; llwybr syml neu un mwy heriol. Ers addysgu CA3, rwyf wedi dylunio fy ngweithgareddau i gynnwys nifer o dasgau sy'n amrywio o ran anhawster gan ganiatáu i'r plant eu herio eu hunain wrth deimlo'n hyderus, neu ddefnyddio'r gefnogaeth pan fo angen. Mae **Atodiad 2** yn enghraifft o'r math hwn o dasg. Mae'r disgyblion yn penderfynu pa set o gwestiynau maent eisiau eu cwblhau, yn seiliedig ar eu dealltwriaeth a'u hyder yn y pwnc.

Cyfeiriadau:

Allison, S., Tharby, A. (2015). *Making Every Lesson Count: Six Principles to Support Great Teaching and Learning*. Crown House Publishing.

Bruner, J. S. (1966). *Toward a Theory of Instruction*. Cambridge: Harvard University Press.

Taffel, R. (2010). *Breaking Through to Teens*. Guilford Press.

Vygotsky, L. S. (1986). *Thought and language*. Cambridge, MA: MIT Press.

DD2 - Gwerthuso effeithiolrwydd ystod o strategaethau dysgu ac addysgu yn feirniadol trwy dynnu ar dystiolaeth yn yr ystafell ddosbarth a thystiolaeth ymchwil.

Disgrifiad – Yn fy rôl fel athro cynradd yn ystod XXX, arbrofais gydag amrywiaeth o strategaethau dysgu ac addysgu gyda grŵp o fyfyrwyr, i benderfynu beth oedd yn gweithio orau i'r disgyblion wrth iddynt gynllunio dadl yn y dosbarth yn ystod ein gwaith ar ddadleuon cytbwys. Roedd y ddadl yn canolbwyntio ar y cwestiwn 'A oes angen plastig ar y byd?' ac roedd yn bwysig bod disgyblion ar ddwy ochr y ddadl yn gallu meddwl am bob safbwynt posibl a allai godi.

Teimladau – roeddwn i'n awyddus i ddilyn arweiniad astudiaeth a ysgrifennwyd gan Edward De Bono (1985) lle mae'n cymhwyso'r defnydd o chwe het feddwl i annog meddwl yn ehangach i grŵp o ddysgwyr. Roedd y syniad o ddisgyblion yn dadlau dros bwnc, gan wybod bod dwy ochr y ddadl hefyd wedi ymchwilio i bob agwedd eu hunain, yn fy nghyffroi. Roedd gennyf ddiddordeb i weld a fyddai'r disgyblion yn gallu cynnig eu gwrth-ddadleuon eu hunain, gan wybod beth oedd yr ochr arall yn debygol o sôn amdano. Mae **Atodiad 3** yn dangos y chwe het feddwl, a sut maent yn annog mynd i'r afael â phwnc o sawl safbwynt. Mewn astudiaeth a ysgrifennwyd gan Mahoney, Patterson a Hall (2022), fe wnaethon nhw hefyd gyfeirio at y chwe het feddwl fel offeryn effeithiol ar gyfer addysg fodern i bob oedran, gan fod disgyblion bellach yn cael mwy o berchnogaeth ar eu dysgu.

Gwerthusiad – Gwnaeth yr arbrawf hwn fy ngwobrwyo â nifer o ganlyniadau cadarnhaol. Roedd yn amlwg bod defnyddio'r chwe het feddwl wedi caniatáu i unigolion drafod pob maes posibl o'r pwnc, a greodd ddadl fanwl a strwythuredig yn y dosbarth. Yn ogystal, roedd y disgyblion o allu is wedi gallu defnyddio'r hetiau fel sgaffald, gan adeiladu ar thema'r het roeddent wedi'i derbyn i ddod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol eu hunain a chyfrannu'n effeithiol. Mae **Atodiad 4** yn adroddiad ar fy arsylwad gwers, lle nodir bod pawb wedi gallu cyfrannu'n effeithiol.

Dadansoddiad – Mae'r chwe het feddwl wedi caniatáu i'r disgyblion ymchwilio i bwnc o amrywiol onglau, gan arwain at ddadl fwy cyflawn a chytbwys. Roedd y strategaeth yn sicr yn fwy defnyddiol i'r disgyblion o allu is a gafodd sgaffald i adeiladu dadl ddilys o safbwynt penodol. Fodd bynnag, cyfyngwyd ychydig ar y disgyblion o ran yr ymchwil y gellid ei gwblhau, gan fod y chwe het feddwl yn gofyn i ddisgyblion ganolbwyntio ar feysydd penodol y pwnc. Hefyd, byddai nifer o unigolion yn cyfyngu eu hunain i ddefnyddio un het yn unig, yr het yr oedden nhw'n gysurus yn gweithio gyda hi. Dadleua Winter (2015) y gallai unigolion â nodweddion penodol gamddefnyddio pŵer yr het feddwl las, sy'n cynnwys elfen o arweinyddiaeth. Ac roedd hyn yn amlwg yn fy mhrofiad i, gan y byddai cymeriadau cryf yn aml yn gwirfoddoli i ddefnyddio'r het las.

Casgliad – Mae techneg Edward De Bono o'r chwe het feddwl yn sgaffald effeithiol ar gyfer disgyblion o allu is sy'n ei chael yn anodd dechrau eu hymchwil ar bwnc. Fel strategaeth ddysgu, mae'n cyfyngu meddwl beirniadol plant ac yn dileu'r angen i'r disgyblion ddatrys problemau'n annibynnol. I gasglu, ni fyddwn yn argymhell defnyddio'r strategaeth hon yn rheolaidd.

Cynllun gweithredu – byddaf yn parhau i ddefnyddio'r strategaeth hon fel sgaffald ar gyfer plant o allu is gan y bydd eu sgiliau ymchwil a datrys problemau'n datblygu gyda'r arweiniad a roddir gan y chwe het feddwl. Ar gyfer y disgyblion mwy galluog, byddaf yn canolbwyntio mwy ar ddysgu sy'n seiliedig ar ymholi, gyda phwyslais ar ddisgyblion yn hel a rhannu gwybodaeth a gasglwyd ganddyn nhw eu hunain, fel y gallant gymhwyso eu sgiliau meddwl yn feirniadol pan fo angen.

Y gwahaniaeth mae'r dysgu hwn wedi'i wneud i'm harfer: Mae arbrofi gyda'r strategaeth hon wedi gwneud i mi sylweddoli ei bod yn bwysig edrych ar bwnc o sawl safbwynt, gan greu amcan dysgu eang ar gyfer y myfyrwyr. Mae hefyd wedi gwella fy nghynllunio wrth i mi geisio sicrhau bod gan ddisgyblion amser i gwblhau eu hymchwili eu hunain ac adeiladu eu syniadau eu hunain o'r wybodaeth a ddarparwyd. Mae **Atodiad 5** yn ddarn o waith a gwblhawyd gan ddisgybl Blwyddyn 8. Ac yntau wedi defnyddio'r chwe het feddwl yn flaenorol, gwnaeth yr unigolyn hwn fynd i'r afael â phwnc o sawl ongl i lunio prosiect ymchwil ardderchog, trwy ddysgu seiliedig ar ymholi yn unig.

Cyfeiriadau:

De Bono, E. (1991) *Teaching Thinking*. Penguin books Ltd

Mahoney, J., Patterson, L., and Hall, C. (2022). *De Bono's Six Hats Thinking Strategy for All Content Areas*. *Kentucky Teacher Education Journal: The Journal of the Teacher Education Division of the Kentucky Council for Exceptional Children*. Ar gael yn : <https://digitalcommons.murraystate.edu/ktej/vol19/iss1/4>

Winter, T. (2015). *6 Thinking Hats: Praise & Criticism*. [online] blog.hptbydts.com. Ar gael yn: <https://blog.hptbydts.com/6-thinking-hats-praise-criticism>.

DD3 - Dewis a chymhwyso'r strategaethau dysgu ac addysgu mwyaf priodol yn feirniadol er mwyn gwella cyrhaeddiad grŵp o ddysgwyr.

Disgrifiad – Gan weithio gyda disgyblion CA3 yn XXX, rydym wedi ceisio datblygu prosiectau sy'n cysylltu nifer o bynciau gyda'i gilydd. Gwnaeth un prosiect gyda Blwyddyn 7 roi'r cyfle i gysylltu gwyddoniaeth, a Dylunio a Thechnoleg. Er mwyn ceisio cael y myfyrwyr i feddwl yn annibynnol yn gyson, ac ystyried sawl safbwynt, penderfynais ymgorffori rhywfaint o ddysgu seiliedig ar ymholi. Y cwestiwn annelwig a ofynnwyd ar ddechrau'r prosiect oedd 'Pa fath o sosban sydd ei hangen arnom i goginio ein cinio?' Gwnaeth defnyddio hwn fel sylfaen ar gyfer ein prosiect sicrhau bod ein plant yn cyfeirio'n gyson at y cwestiwn drwy gydol y prosiect. Cafodd y strategaeth hon ei gwneud yn ddamcaniaeth gan John Dewey (1910) ac yn ddiweddarach gwnaeth Flinders a Thornton (2013) wneud sylwadau pellach arni gan weld damcaniaeth Dewey fel newid cadarnhaol i amgylchedd disgyblion sy'n hyrwyddo ymgysylltu ar draws pob pwnc.

Teimladau - roeddwn yn eithaf hyderus ynglŷn â defnyddio'r dull hwn gan fy mod wedi gwneud rhywfaint o ymchwil manwl ar ei lwyddiant gydag eraill. Roedd rhai unigolion yn yr adran braidd yn amheus, fodd bynnag gwnaethant sylweddoli'n fuan fod y strategaeth yn effeithiol. Roeddwn yn hynod o falch â'r ffordd y gwnaeth y strategaeth ddal diddordeb y dysgwyr a sut y gwnaeth hynny ddatblygu i fod yn gynnydd mewn cyrhaeddiad.

Gwerthusiad – Dysgais fod rhan fawr o gyrhaeddiad disgyblion yn cael ei ddylanwadu gan eu hymgysylltiad â'r pwnc. Gweithiodd yn dda oherwydd roedd yn gwestiwn unigryw nad oedd erioed wedi'i ystyried o'r blaen, ac felly roedd yn creu'r cysylltiad hwnnw rhwng yr ysgol a'r cartref. Roedd y disgyblion fel petaent yn mwynhau gorfod meddwl a gweithio tuag at yr ateb dros gyfnod hir ac roeddent yn awyddus i ddysgu am bethau a allai ddylanwadu'n gryf ar eu hateb ar ddiwedd y prosiect.

Dadansoddiad – Fe wnaeth dysgu yn seiliedig ar ymholi ganiatáu i'm disgyblion adeiladu ateb effeithiol i'r cwestiwn oedd yn gysylltiedig â'r prosiect. Trwy amrywiol ddulliau ymchwilio ac arbrofion roeddent i gyd yn gallu dod i gasgliad tebyg, ond llwyddon nhw i wneud hyn drwy ddilyn llwybrau gwybodaeth gwahanol. Mae hyn yn cysylltu'n gryf â Piaget (1936) a ddamcaniaethodd fod disgyblion yn well dysgwyr pan maent yn adeiladu eu gwybodaeth o brofiadau, yn hytrach na chael yr ateb cywir

wedi'i roi iddynt. Mae Cook a Gayle (2014) yn ehangu ar ddamcaniaeth Piaget ymhellach drwy bwysleisio pwysigrwydd dysgu seiliedig ar ymholi ar wthio plant i ddysgu'n fwy diwyd.

Casgliad – Gweithiodd y strategaeth hon yn arbennig o dda. Fe wnaeth ddal sylw'r dysgwyr gan hefyd eu cadw ar y llwybr tuag at gyflawni'r nod ar gyfer y pwnc hwn. Yn achos Gwyddoniaeth, mae'n strategaeth ardderchog gan ei bod yn caniatáu i ddisgyblion arbroti, archwilio a dadansoddi data a fydd yn rhoi arwydd cliriach iddynt o sut i greu ateb effeithiol. Wrth ysgrifennu casgliad i'r prosiect, mae'r disgyblion yn mynd ati i gyfeirio at brofiadau a data gwirioneddol i gefnogi eu datganiadau, i greu ateb effeithiol ac aeddfed. Mae **Atodiad 6** yn enghraifft o effeithiolrwydd y dull hwn. Byddwch yn sylwi sut mae'r ail ateb, a roddir ar ddiwedd y pwnc, yn welliant mawr ar y cyntaf. Mae hyn yn ganlyniad i gysylltu'r wybodaeth newydd am y pwnc yn gyson â'r cwestiwn.

Cynllun gweithredu – Mae gan y strategaeth hon y potensial i gael ei gweithredu yn y rhan fwyaf o bynciau o fewn gwyddoniaeth, yn enwedig i ddisgyblion CA3. Yn y dyfodol byddaf yn cydweithio ag adrannau eraill i weithredu'r strategaeth hon fel ei bod yn cynnwys cysylltiadau trawsgwricwlaidd cryfach, a fydd yn ennyn diddordeb y disgyblion ymhellach mewn pynciau eraill yn ogystal â gwyddoniaeth.

Y gwahaniaeth mae'r dysgu hwn wedi'i wneud i'm harfer: Rwyf bellach yn ceisio dechrau pob pwnc â rhyw fath o fachyn. Boed yn gwestiwn, yn llun neu'n wrthrych, mae angen ennyn diddordeb y disgyblion o'r wers gyntaf. Mae gwneud hyn wedi cynyddu cyfranogiad disgyblion ym mhob gweithgarwch gan gynnwys trafodaethau dosbarth.

Cyfeiriadau:

Cook, K., & Gayle B. (2014). *Pre-service elementary teachers' experience in a community of practice through a place-based inquiry*. International Journal of Environmental & Science.

Dewey, J. (1910). *How we think*. Boston: [D. C. Heath and Company](#).

Flinders, D., & Thornton, S. (2013). *The curriculum studies reader*. 4th Ed. New York: Routledge.

Piaget, J. (1936). *Origins of intelligence in the child*. London: Routledge & Kegan Paul.

DD4 - Ymgysylltu â deialogau beirniadol am addysgeg ac ymarfer a thystiolaeth a rhannu eu harfer proffesiynol.

Disgrifiad – Wedi i mi ddechrau addysgu mewn ysgol uwchradd, roedd angen i mi ddod o hyd i strategaeth a oedd yn addas i ddysgwyr o oed gwahanol, nad oeddwn erioed wedi'u dysgu o'r blaen. Fy ngreddf gyntaf oedd canolbwyntio'r addysgeg ar Dacsonomeg Bloom. Creodd Benjamin Bloom (1956) fframwaith a fyddai, o'i ddefnyddio'n gywir, yn datblygu dealltwriaeth lwyr disgybl am bwnc, o wybodaeth sylfaenol i werthusiad datblygedig. Penderfynais ymgorffori'r strategaeth hon gyda fy nysgwyr Blwyddyn 10, wrth i ni fynd i'r afael â phwnc eithaf anodd, y system cylchrediad gwaed. Mae **Atodiad 7** yn gynllun gwers a ddefnyddiais ar gyfer yr union bwnc hwn, ynghyd â model o'r Dacsonomeg ei hun. Yn ddiddorol, ceisiais ymgorffori'r rhan fwyaf o haenau Tacsonomeg Bloom mewn un wers, er mwyn arsylwi'n berffaith ar ddatblygiad disgybl yn y dosbarth, o gofio, i ddeall, i gymhwyso ei wybodaeth.

Teimladau – roeddwn i'n teimlo'n eithaf hyderus y byddai'r fframwaith yn llwyddiannus, gan fod gwybodaeth am y pwnc yn greiddiol i bob adran o'r dacsonomeg, gan olygu y byddai cyfeiriadau cyson at gynnwys ffeithiol y pwnc. Fodd bynnag, roeddwn i'n pryderu braid y byddai'r pwyslais ar wybodaeth yn yr amcan cyntaf yn arwain at ddirywiad cyffredinol yn y wybodaeth bynciol a fyddai'n cael ei chyflwyno tuag at yr amcanion olaf. Yn dilyn llawer o gyfarfodydd, i drafod y defnydd o'r fframwaith, gwnaeth nifer o'm cydweithwyr fy annog i frw ymlaen â'r fframwaith, gan eu bod nhw wedi cael llwyddiant wrth ei ymgorffori eu hunain.

Gwerthusiad – At ei gilydd, roedd hwn yn brofiad cadarnhaol. Gwnaeth y rhan fwyaf o'm disgyblion ddangos gwybodaeth dda am y pwnc erbyn y diwedd, fodd bynnag roeddent wedi cael trafferth cofio'r holl wybodaeth wrth gwblhau'r amcanion olaf, gan fod y broses wedi cymryd amser hir ac roedd llawer o wybodaeth i'w dysgu. Yn sicr gwnaeth fy nisgyblion elwa o ddilyn adrannau unigol o'r fframwaith, gan iddynt allu nodi pa sgiliau oedd eu hangen ar gyfer darnau o waith.

Dadansoddiad – Rwy'n meddwl bod y pwnc ei hun wedi cynnwys gorlwyth o wybodaeth i'm disgyblion, gan olygu ei fod yn anodd iddynt syntheseiddio a dadansoddi gwybodaeth yn effeithiol. Byddwn i wedi elwa o ddefnyddio'r dacsonomeg ddiwygiedig, a ddatblygwyd gan Anderson a Krathwol (2001). Mae'r fframwaith hwn yn nodi'r union sgiliau y dylid eu datblygu ymhob adran yn ogystal â nodi'r mathau o wybodaeth, o'r ffeithiol i'r metawbyddol.

Casgliad – Mae Tacsonomeg Bloom yn fframwaith effeithiol sy'n tywys disgyblion trwy'r camau o feddwl, dysgu a deall o fewn pwnc. Mae'n datblygu amrywiaeth o sgiliau y gellir eu defnyddio'n effeithiol ynghyd â gwybodaeth bynciol i gynllunio, gweithredu a gwerthuso. Byddwn yn argymhell defnyddio'r fframwaith hwn ar gyfer testun bach o fewn eich pwnc dewisedig. Credaf fod canolbwyntio ar feysydd penodol o fewn y fframwaith yn tynnu sylw disgyblion oddi wrth yr hyn a ddylai fod yn ffocws y gwersi, sef y wybodaeth bynciol. Mae Lemov (2017) hefyd yn annog athrawon i beidio â defnyddio Tacsonomeg Bloom gan ei fod yn teimlo ei bod yn dibrisio gwybodaeth o fewn pwnc.

Cynllun gweithredu – Rwyf wedi defnyddio Tacsonomeg Bloom ar sawl achlysur ers yr arbrawf hwn. Gan ddilyn y fframwaith diwygiedig, rwyf wedi gallu datblygu sgiliau disgyblion ym mhob amcan gan hefyd gadw sylw disgyblion ar y wybodaeth bynciol sydd ei hangen. Mae rhagor o brofiad o ddilyn y dull hwn o addysgu wedi rhoi strwythur pendant ar sut i gwblhau pynciau gyda fy nisgyblion ac rwy'n dilyn y strwythur hwn gyda phob grŵp blwyddyn.

Y gwahaniaeth mae'r dysgu hwn wedi'i wneud i'm harfer: Yn hytrach na chymhwyso Tacsonomeg Bloom i uned gyfan o waith, rwyf bellach yn ei gynnwys mewn gwersi unigol. Mae'n ffordd dda o gynnal sylw disgyblion gan fod nifer o dasgau mewn un wers ac mae'n ffordd dda o nodi'n glir y rhai sy'n gwneud cynnydd a'r rhai sydd angen mwy o gefnogaeth.

Cyfeiriadau:

Bloom, B.S. (1956) *Taxonomy of Educational Objectives, Handbook: The Cognitive Domain*. New York: David McKay.

Anderson, L. W. & Krathwohl, D. R. (2001). *A Taxonomy for Learning, Teaching and Assessing: A Revision of Bloom's Taxonomy of Educational Objectives: Complete Edition*. New York: Longman.

Lemov, D. (2017) 'Bloom's taxonomy - That pyramid is a problem', *Doug Lemov's Field Notes*, 4 Mawrth 2017 [Blog]. Ar gael yn <https://teachlikeachampion.org/blog/blooms-taxonomy-pyramid-problem/> (Cyrchwyd 18 Hydref 2023).

3.1. Tystiolaeth Ategol

Rhestrwch a chyfeirnodwch y dystiolaeth ategol yn eich portffolio.

Atodiad 1 – Enghraifft o'm gallu i ddarparu sgaffald llwyddiannus i ddysgwyr o amrywiol allu a hyder.

Atodiad 2 – Gwahaniaethu clir sy'n caniatáu i ddysgwyr herio eu hunain os oes ganddynt yr hyder.

Atodiad 3 – Diagram o'r 6 het feddwl a swyddogaeth pob het.

Atodiad 4 – Adroddiad arsylwi lle mae'r arsylwr yn disgrifio gwers lle mae pawb yn cael y cyfle i gyfrannu.

Atodiad 5 – Prosiect bach a gwblhawyd gan fy myfyrwyr sy'n dangos effeithiolrwydd dysgu seiliedig ar ymholi i gasglu gwybodaeth.

Atodiad 6 – Tasg syml sy'n dangos cynnydd clir, gyda'r un cwestiwn yn cael ei ofyn ar ddechrau ac ar ddiwedd y wers.

Atodiad 7 – Cynllun gwers manwl sy'n dangos fy nealltwriaeth o dacsonomeg Bloom.

Atodiad 8 – Stori fanwl sy'n cynnwys amrywiaeth o ddysgu blaenorol o fewn y pwnc.

Atodiad 9 – Enghraifft o sut y defnyddiais ddata ysgol perthnasol i ysgogi disgyblion a gwella presenoldeb.

Atodiad 10 – Enghraifft arall o'r modd y defnyddiais ddata i ddangos pwysigrwydd ac arwyddocâd dewisiadau gwael o ran ffordd o fyw ar berfformiad a chyflawniad disgyblion.

Atodiad 11 – Dyma fy CV anodedig. Mae'n cyfeirio at fy angerdd a'm profiadau o ddarparu addysg o ansawdd uchel i'm dysgwyr.

Atodiad 12 – Senario sy'n cyfuno'r adran wyddoniaeth a thechnoleg i ddarparu profiad dysgu diddorol i'm disgyblion.

Atodiad 13 – Mae'r cynllun gwers hwn yn cynnwys amrywiaeth o sgiliau yr wyf yn eu hymgorffori yn fy ngwersi yn ddyddiol.

Atodiad 14 – Tasg rwyf wedi'i defnyddio gyda fy nisgyblion i ddal eu diddordeb a hyrwyddo'r defnydd o feddwl dargyfeiriol yn yr ystafell ddosbarth i ddatrys problemau.

Atodiad 15 – Mae'r amserlen hon yn enghraifft o'r modd rwy'n cydweithio gyda staff i weithredu amrywiaeth o strategaethau ac ymyriadau sy'n bodloni anghenion ein disgyblion.

Atodiad 16 – Enghraifft o daflen hunanasesu sy'n hyrwyddo hunanadfyfrio ac yn codi ymwybyddiaeth o ddisgwyliadau academaidd yn yr ystafell ddosbarth.

Atodiad 17 – Diagram anodedig o'r Parth Datblygiad Procsimol a arsylwais i brofi ei ddilysrwydd i addysg fodern.

Atodiad 18 – Polisi ysgol rwy'n ei ddilyn sy'n cynnwys amrywiaeth o strategaethau addysgu i greu ystafell ddosbarth lwyddiannus ac effeithlon.

Atodiad 19 – Llwybr dysgu a greais ar gyfer fy nysgwyr i godi a thynnu sylw at y disgwyliadau oedd yn ofynnol er mwyn gwneud cynnydd yn ystod y pwnc.

Atodiad 20 – Senario ar gyfer pwnc gwyddoniaeth a greais i ennyn diddordeb disgyblion.

Atodiad 21 – Fy adroddiad arsylwi mwyaf diweddar sy'n amlygu fy ngallu i gynllunio'n effeithiol a defnyddio ystod o strategaethau'n llwyddiannus.

Atodiad 22 – Y cynllun marcio rwy'n ei ddefnyddio o fewn yr adran i sicrhau cysondeb i ddysgwyr.

Atodiad 23 – Enghraifft o'r model o ddatblygiad gwybyddol a ddefnyddiais yn ystod ymchwil ar gyflawniad disgyblion.

Atodiad 24 – Dyma fy nisgrifiad swydd anodedig. Mae'r darn hwn o dystiolaeth yn arddangos fy effeithiolrwydd fel ymarferydd a'r modd rwy'n cwblhau'n llwyddiannus yr hyn a ddisgwylir gennyf fel athro ysgol uwchradd.

Atodiad 25 – Rwyf wedi cynnwys fy natganiad cyflogwr yn y dystiolaeth ar gyfer fy nghais. Lluniwyd y datganiad gan fy mhennaeth adran, sydd wedi ysgrifennu'n gryno am fy nghyfraniadau tuag at gyflawni'r amcanion dysgu perthnasol.

Atodiad 26 – Rwyf hefyd wedi cynnwys datganiad a ysgrifennwyd gan fy mhennaeth ysgol. Mae'r datganiad hwn yn amlygu fy ymrwymiad i'r ysgol a'm statws fel aelod gwerthfawr o staff.

Trwy deipio'ch enw yn y blwch isod rydych chi'n llofnodi'r ffurflen hon yn electronig.

Llofnod:

Dyddiad:

Ar ôl i chi gwblhau'r adrannau uchod, dylech ofyn i'ch Mentor Academaidd/Cynghorydd RAL i gwblhau adran 4 isod. Yna bydd yn cyflwyno eich cais i'r Swyddfa Academaidd i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd RPEL ac Achredu.

4. DATGANIAD GAN Y MENTOR ACADEMAIDD NEU GYNGHORYDD RAL (mae'r blwch testun isod yn ehangu)

Ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â Chredyd Penodol, yn gyntaf dylai'r Mentor Academaidd gynnal trafodaeth broffesiynol gyda'r ymgeisydd. Yna dylai roi sylwadau ar y portffolio tystiolaeth, gwerthuso dysgu blaenorol yr ymgeisydd drwy brofiadau ac argymhell a ellir cydnabod dysgu'r ymgeisydd o ran ei gyfwerthedd â'r modwl/modylau y ceisir credyd amdanynt (disgrifir rôl y Mentor Academaidd yn y Polisi RPL).

Ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â Chredyd Cyffredinol, yn gyntaf dylai'r Cynghorydd RAL gynnal trafodaeth broffesiynol gyda'r ymgeisydd. Yna dylai roi sylwadau ar y portffolio tystiolaeth a'r traethawd adfyfyriol gan werthuso'r dysgu a gyflawnwyd o ran maint a lefel y credydau a geisir (disgrifir rôl y Cynghorydd RAL yn y Polisi RPL).

Trwy deipio’ch enw yn y blwch isod rydych chi’n llofnodi’r ffurflen hon yn electronig.	
Llofnod: Sarah Loxdale / Lowri Harris	Dyddiad: